# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymeithasol a Llywodraeth Leol

### Uchafswm Cyflog

**C10 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am uchafswm cyflog mewn llywodraeth leol? OAQ(3)1304(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Llywodraeth leol sy'n gyfrifol am gyflogau ac amodau. Maent yn cael eu trafod yng Nghymru a Lloegr gan sefydliad cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau drwy'r cyd-gyngor cenedlaethol. Trafodir cyflog athrawon drwy'r corff adolygu athrawon ysgol sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

### Ymrwymiadau 'Cymru'n Un'

**C11 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd at gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' sy'n ymwneud â'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)1268(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr ydym yn ymrwymedig i wireddu ein hymrwymiadau yn Cymru'n Un. Yr ydym wedi gwneud cynnydd da at gyflawni ein hamcanion i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus mewn cymdeithas a hybu cymunedau diogel, cynaliadwy a theg.

### Lleihau Gwariant

**C12 Chris Franks:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith lleihau gwariant y DU ar gyllidebau llywodraeth leol? OAQ(3)1269(SJL)

**Carl Sargeant:** Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn brysio i gyflwyno toriadau heb eu cynllunio ar gyllidebau a allai niweidio gwasanaethau cyhoeddus. Ni fydd y grant cynnal refeniw yn cael ei dorri eleni yn sicr. Ystyrir yr effaith ar gyllid yn y dyfodol fel rhan o benderfyniadau cyllidebol ehangach Llywodraeth y Cynulliad.

### Blaenoriaethau

**C13 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1274(SJL)

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau o hyd yw cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed a hybu cymunedau teg, cynaliadwy a theg â chydlyniant cymunedol gwell. Mae'n hollbwysig ein bod

yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn ystod y cyfnod hwn o wariant cyhoeddus cyfyngedig.

### Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

**C14 Eleanor Burnham:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog mwy o fenywod i fynd i mewn i fywyd cyhoeddus? OAQ(3)1255(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae llawer o raglenni sy'n ceisio gwella hyder ac annog menywod i ymwneud â bywyd cyhoeddus. Enghraifft benodol yw'r prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth a ariennir drwy'r gronfa hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r prosiect wedi rhoi'r hyder a'r sgiliau i fenywod gymryd rhan ar bob lefel yn eu cymunedau ac mewn bywyd cyhoeddus.

### Toriadau

**C15 David Lloyd**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch toriadau i gyllideb llywodraeth leol? OAQ(3)1258(SJL)

**Carl Sargeant:** Rwy'n trafod ystod eang o faterion yn rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan gynnwys setliad cyllid llywodraeth leol. Yn gynharach yr wythnos hon, cwrddais â phrif lefarwyr yr awdurdodau lleol i drafod pwysau o ran ariannu. Byddaf hefyd yn cadeirio cyfarfod y cyngor partneriaeth yfory.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Anghenion Addysgol Arbennig

**C11 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi darpariaeth anghenion addysgol arbennig yn y gorllewin? OAQ(3)1430(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Rhyw £44 miliwn fydd cyfanswm gwariant sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar anghenion addysgol arbennig yn 2010-11. Yn ogystal, rydym wedi dyrannu grantiau gwerth dros £830,000 ar gyfer AAA.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1408(CEL), a chwestiwn 13, OAQ(3)1451(CEL), yn ôl.*

### Cynllun Brecwast am Ddim

**C14 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun brecwast am ddim? OAQ(3)1460(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae 'Cymru'n Un' yn nodi'n hymrwymiad i barhau â'r rhaglen brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Mae dros 1,000 o ysgolion yn rhan o'r rhaglen bellach, gan gynnig y cyfle i ddisgyblion gael brecwast maethlon a all helpu i wella'u hiechyd, a'u gallu i ganolbwyntio ac felly safon eu dysgu a'u cyrhaeddiad.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1416(CEL), yn ôl.*